# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Perfformiad*

### 89 Dyletswydd ar brif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,

(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac

(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b).

(2) Yn y Bennod hon, cyfeirir at y materion a nodir ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (1) fel "y gofynion perfformiad".

(3) Rhaid i brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn ag—

(a) y gofynion perfformiad;

(b) y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon.

**90 Dyletswydd i ymgynghori â phobl leol etc. ar berfformiad**

Rhaid i brif gyngor ymgynghori â'r canlynol o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol, ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad—

(a) pobl leol,

(b) personau eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y cyngor,

(c) staff y cyngor, a

(d) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan y cyngor.